

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

23 Chwefror 2023

Annwyl Jane,

Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Roedd yn bryder i ni ddysgu, wrth graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, fod llai o gyllid wedi'i ddyrannu i'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer 2023-24 na'r blynyddoedd blaenorol. Fel y gwyddoch, gwnaethom gynnal ymchwiliad yn ddiweddar i'r ddarpariaeth o safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw, gwnaethom ymweld â nifer o safleoedd awdurdodau lleol a gweld drosom ein hunain fod rhai safleoedd yn orlawn a bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw neu waith adnewyddu ar frys yno. Roedd yn syndod i ni, felly, nad yw'r dyraniad ar gyfer y grant wedi cynyddu er mwyn galluogi awdurdodau lleol i wella'r safleoedd presennol a datblygu rhai newydd.

Roedd y ffaith i chi nodi yn eich llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol na fu unrhyw wariant o'r grant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac na ragwelir unrhyw wariant cyn diwedd mis Mawrth, yn fwy fyth o syndod. Rydym yn pryderu y gallai'r tanwariant fod o ganlyniad i ddiffyg ymgynghori â chymunedau ynglŷn â'r gwelliannau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom fod y gwaith ymgysylltu a wneir yn rhy aml yn docenistaidd. Rydym yn ofni bod y tanwariant yn y maes hwn yn dystiolaeth o hynny, gan ei bod yn amlwg bod angen gwella'r llety presennol a darparu mwy o leiniau, gan gynnwys safleoedd tramwy.

Cawsom ohebiaeth gan awdurdod lleol yn ddiweddar yn nodi bod ganddo ddau safle y mae taer angen eu haildatblygu ac yn gofyn am gymorth ariannol i wneud y gwaith hwnnw.

Mae'n destun pryder ac yn hynod rhwystredig bod cyllid ar gael i wneud cynnydd positif i fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a



Theithwyr yng Nghymru, ond ei fod yn amlwg ddim yn cael ei ddefnyddio. Mae'n bryder hefyd nad yw rhai awdurdodau lleol, o bosibl, hyd yn oed yn gwybod bod grant ar gael na ble i ofyn am gymorth. Dyma ddarlun clir o'r rheswm pam y gwnaethom benderfynu cynnal gwaith ar ddarparu safleoedd yn y lle cyntaf, ac yn anffodus mae'n awgrymu nad yw hwn yn faes blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae angen mynd i'r afael â hyn ar frys, ac mae'n rhaid buddsoddi er mwyn darparu llety digonol ac addas ar gyfer rhai o'r bobl sydd ar gyrion eithaf ein cymunedau.

Yn ein hadroddiad drafft ar y gyllideb, byddwch yn ymwybodol inni wneud argymhelliad ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r rhesymau dros y diffyg cynnydd o ran defnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y gronfa bwysig hon yn cael ei defnyddio. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru egluro beth fydd yn digwydd i'r £3.690 miliwn sydd heb ei wario o gyllideb 2022-23, a chadarnhau y bydd yn cael ei ddyrannu i gymryd camau yn y maes hwn.

Yn ogystal ag ymateb i'r argymhelliad uchod, gan fod chwe mis wedi mynd heibio ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad ar ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariad ar gynnydd Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r 21 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.

Fel Pwyllgor rydym wedi ymrwymo i fonitro'r gwaith o weithredu ein hargymhellion ac i gynnal gwaith craffu dilynol mewn perthynas â'r ddarpariaeth o safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n faes gwaith blaenoriaeth i ni.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.